# Croeso i CBAC

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i gyfeirio Swyddogion Arholiadau at yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch.

Porth

Gwybodaeth Gyffredinol

Cyfathrebu

Dyddiadau Allweddol ac Amserlenni

Cofrestriadau

Arholiadau ac Asesu

Canlyniadau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

Rheoli Canolfannau

Cefnogaeth ac Arweiniad

## Porth (gwefan ddiogel)

Yn ogystal â'ch cyfrif Swyddog Arholiadau, rydym yn argymell eich bod yn creu o leiaf un cyfrif Gweinyddol ar gyfer aelod o staff, rhag ofn eich bod chi ddim ar gael. Caniateir 3 chyfrif Gweinyddol i bob canolfan, a bydd gan y deiliaid hyn yr un lefel o fynediad â'r Swyddog Arholiadau a gallant ddiweddaru manylion ar gyfer deiliaid cyfrifon eraill, gan gynnwys y Swyddog Arholiadau.

Gellir dod o hyd i gyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio Porth, gan gynnwys creu cyfrifon a newid manylion y Swyddog Arholiadau, yn ein canllawiau:

**Canllawiau Defnyddiwr Porth**

## Gwybodaeth Gyffredinol

Mae ein tudalennau Gweinyddu yn rhoi cyngor ac arweiniad ar y prosesau sy'n ymwneud â Swyddogion Arholiadau yn ystod y cyfnod arholiadau.

Efallai yr hoffech hefyd gyfeirio eich staff addysgu at ein cyfeiriadur o dudalennau cymwysterau, sy'n cynnwys adnoddau pwnc-benodol a manylion cyswllt ar gyfer y timau pwnc, a all gynnig cyngor ar ddogfennaeth ac amserlenni sy'n ymwneud â chymwysterau unigol.

# Cyfathrebu

Rydym yn cyfathrebu gwybodaeth bwysig, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau brys a cheisiadau gan ein timau cefnogi, dros e-bost, fel arfer i'r cyfeiriad a gofrestrwyd ar gyfer y Swyddog Arholiadau.

Os hoffech i'r negeseuon hyn yn gael eu hanfon at gyfeiriad e-bost gwahanol (e.e. blwch post a rennir), gellir newid y manylion hyn ar Porth trwy glicio ar enw eich canolfan ar frig y sgrin ar yr ochr dde ac yna Manylion y Ganolfan > Manylion Cyswllt y Ganolfan.

- **Cylchlythyrau**

Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi'n fisol ar Porth o dan Dewislen > Gwybodaeth Allweddol > Cylchlythyrau.

Pan fydd y rhain ar gael, anfonir hysbysiad dros e-bost gan exams@wjec.co.uk i'r cyfrif a gofrestrwyd ar gyfer y Swyddog Arholiadau (neu e-bost CBAC fel y nodir uchod).


Rhaid i Swyddogion Arholiadau hysbysu staff priodol o unrhyw gylchlythyr sy'n berthnasol iddynt.

- **Atgofiadau a Diweddariadau**

Mae e-byst sy'n cynnwys nodiadau atgoffa a diweddariadau pwysig hefyd yn cael eu hanfon yn rheolaidd gan exams@wjec.co.uk i'r cyfrif a gofrestrwyd ar gyfer y Swyddog Arholiadau (neu e-bost CBAC fel y nodir uchod).

**Cylchlythyrau Pwnc**

Mae cylchlythyrau tymhorol yn cael eu cyhoeddi gan dimau pwnc unigol. I dderbyn y rhain, gall athrawon a Swyddogion Arholiadau glicio ar y botwm Tanysgrifiwch am ddiweddariadau ar ochr dde'r tudalennau pwnc unigol fel y gwelir yn y sgrinlun isod:



## Dyddiadau Allweddol ac Amserlenni

Mae cysylltau at ein tudalen Dyddiadau Allweddol ac Amserlenni, ein tudalen Hysbysfwrdd y Swyddogion Arholiadau, a'n tudalen Cymwysterau (cyfeiriadur o dudalennau pwnc unigol, sy'n cynnwys dyddiadau allweddol sy'n benodol i gymwysterau), i'w gweld isod:

**Dyddiadau Allweddol ac Amserlenni**

**Hysbysfwrdd y Swyddog Arholiadau**

**Cymwysterau**

## Cofrestriadau

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar gyfer gwneud cofrestriadau rhagarweiniol a therfynol, gan gynnwys arweiniad ar ddata sylfaenol, terfynau amser, ffioedd a chodau mynediad, ar ein tudalen Cofrestriadau, sydd hefyd yn cynnwys y dogfennau canlynol:

- Llyfryn Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau
- Ffioedd Cofrestru
- Canllaw i Ofynion Ailsefyll
- Deall Codau Cofrestru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm Cofrestriadau:

029 2026 5193

cofrestru@cbac.co.uk

# Arholiadau ac Asesu

## Arholiadau

Mae ein tudalen Arholiadau yn cynnwys canllawiau ar gynnal arholiadau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag anfon sgriptiau, a gweinyddu unrhyw anghysondebau a allai godi.

O fewn y dudalen hon, fe welwch hefyd ein dogfennau Gofynion Arholiadau. Mae'r rhain yn ymdrin â pha adnoddau ac eitemau sydd eu hangen ar gyfer arholiadau yn ogystal â'r papur cwestiynau a'r llyfryn atebion.

Mae dogfen y CGC Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau yn darparu arweiniad manwl ar y rheoliadau ar gyfer cynnal arholiadau.

## Asesu Mewnol

Ar ein tudalen Asesu Mewnol fe welwch wybodaeth ac arweiniad ynghylch cynnal asesiad mewnol, yn ogystal â chanllawiau ar gyfer cyflwyno gwaith a marciau/canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys sut i gyflwyno marciau/canlyniadau, sut i drosglwyddo marciau/canlyniadau ymlaen, a ble i ddod o hyd i adroddiadau cymedrolwyr.

Mae ein tudalen uwchlwytho e-gyflwyno yn cynnwys arweiniad, gan gynnwys canllaw fideo a Chwestiynau Cyffredin, ar gyfer cyflwyno gwaith yn electronig.

## Ffurflenni Datganiad Pennaeth y Ganolfan

Gellir dod o hyd i restr o gymwysterau sy'n gofyn am lofnod gan Bennaeth y Ganolfan ar gyfer Asesiadau Di-arholiad neu gwaith maes yn ein dogfen Asesu Mewnol: Canllaw i Ganolfannau ar y dudalen Asesu Mewnol.

Gellir dod o hyd i unrhyw ddogfennaeth angenrheidiol ar gyfer pynciau ar ein tudalennau cymwysterau.

## Gofynion Arbennig

Gellir dod o hyd i wybodaeth ac arweiniad sy'n ymwneud ag Ystyriaeth Arbennig a Threfniadau Mynediad ar ein tudalen Gofynion Arbennig.

## Canlyniadau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

Gellir dod o hyd i wybodaeth ac arweiniad sy'n ymwneud â chanlyniadau, ffiniau graddau, a gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (e.e. gwiriadau clerigol, adolygiadau o farcio a chymedroli a mynediad at sgriptiau) ar ein tudalennau Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau. Ar gyfer trosolwg o wybodaeth allweddol yn ymwneud â'r prosesau hyn, gweler ein Canllaw i Ganlyniadau.

Cyhoeddir canlyniadau i'n canolfannau yn electronig drwy Porth a thrwy EDI ar y diwrnod cyn cyhoeddi'r canlyniadau; dim ond Swyddog Arholiadau neu ddeiliad cyfrif Gweinyddol all gael mynediad i'r rhain o fewn yr amser hwn. Gall defnyddwyr eraill sydd â'r caniatâd mynediad perthnasol gael mynediad at y canlyniadau o 8yb ar Ddiwrnod y Canlyniadau.

Mae **Ffiniau Graddau** yn cael eu cyhoeddi ar ein tudalen Ffiniau Graddau am 8:00yb ar Ddiwrnod y Canlyniadau.

### Gwirio Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol

Fel sy'n ofynnol gan Ofqual, rydym yn ymgymryd â gwiriadau yn ystod y tymor i sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio'r cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol ar Lefel 3, Lefel 1/2 a Lefel 2 yn derbyn canlyniadau pan fydd eu hangen arnynt.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein tudalen Darparu Canlyniadau Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol.

## Rheoli Canolfannau

### Rheoliadau a Thelerau Busnes

Atgoffir canolfannau bod yn rhaid iddynt fodloni a pharhau i gydymffurfio â'r gofynion a nodir ar ein gwefan.

### Camymddwyn

Gellir dod o hyd i wybodaeth ac arweiniad ynghylch camymddwyn ar ein tudalen Camymddwyn

029 2026 5351

camymddwyn@cbac.co.uk

### Gwrthdaro Buddiannau Staff y Ganolfan

Gellir dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â gwrthdaro buddiannau staff y ganolfan, a phryd a sut i ddatgan y rhain ar ein tudalen Manylion y Ganolfan.

### Gofynion Blynyddol Rhifau Canolfannau Cenedlaethol (NCN)

- Rhaid i bob canolfan gymeradwy CBAC sydd â Rhif Canolfan Cenedlaethol (NCN) gwblhau'r datganiad blynyddol a anfonir gan NCN. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at atal cofrestriad CBAC. Bydd y datganiad yn cael ei anfon dros e-bost at y Swyddog Arholiadau yn nhymor yr hydref a rhaid ei gwblhau erbyn 31 Hydref.

- Er mwyn cadarnhau bod canolfannau yn cadw at reoliadau'r CGC yn flynyddol, rhaid i Benaethiaid y Ganolfan gwblhau'r datganiad Pennaeth y Ganolfan, sy'n cael ei weinyddu gan OCR ar ran y CGC. Anfonir hwn yn uniongyrchol at Bennaeth y Ganolfan yn fuan ar ôl i'r diweddariad NCN gael ei anfon at Swyddogion Arholiadau a rhaid ei gwblhau erbyn 31 Hydref.

Am ragor o wybodaeth ac arweiniad, cysylltwch â NCN: ncn@ocr.org.uk

# Cefnogaeth ac Arweiniad

**CBAC**

Mae ein tudalennau Gweinyddu yn rhoi cyngor ac arweiniad ar y prosesau sy'n ymwneud â Swyddogion Arholiadau yn ystod y cyfnod arholiadau.

Mae ein tudalen Cysylltiadau Gweinyddu yn darparu manylion cyswllt ar gyfer timau gweinyddol amrywiol.

Mae ein tudalennau Cymwysterau yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y timau pwnc.

Os oes angen rhagor o gyngor neu arweiniad arnoch ynglŷn â'r ddogfen hon, cysylltwch â Thîm Rheoli'r Ganolfan:

029 2026 5077

centres@wjec.co.uk